Sut i wneud map plygu o Dwrci sy'n Amgueddfa o'ch Bywyd gan Emma Jones



Byddwch angen:
papur, siswrn, pensil/beiro, darn sgwâr o bapur.
Mae A4 yn dda i'w gadw yn eich bag ac A3 i'w gadw gartref.
Gallwch wneud eich map unrhyw faint sy'n eich plesio. Plygwch un ymyl i fyny mor agos ag y gallwch at y papur.



Tynnwch linell i wneud sgwâr a thorri'r gweddill i ffwrdd.



Plygwch eich papur drosodd at yr ymyl arall.
Bob tro y plygwch, rhedwch eich ewin dros y plyg i'w wneud yn glir.

Dylai fod gennych 4 triongl.

Nawr plygwch ben y papur i'r gwaelod.

Dyma sut olwg sydd ar y llinellau.



Dyma'r rhan anodd. Gwthiwch yr ochr i mewn a phlygwch y brig yn ôl drosodd.









Gwthiwch yr ochr arall i mewn.
Cofiwch wneud y plyg yn glir â'ch ewin.



Bydd yn edrych fel pyramid.

Plygwch ddau bwynt yn y blaen i ganol y prif driongl.
Trowch y cyfan drosodd a gwneud yr un peth ar y cefn.



Oddi uchod dyma sut olwg sydd arno.

Mae bron yn barod. Tynnwch allan y 4 pwynt a wnaethoch a gwthiwch bob un yn ôl arno ei hun. Defnyddiwch eich ewin eto

O'r diwedd, dyma'ch map plygu! Nawr cewch ei droi'n Amgueddfa o'ch Bywyd.



Mae fy Amgueddfa i'n lliwgar gyda'm cath yn tyllu pob un siwmper sy'n gennyf!



Dyma fap ichi o amgueddfa bosibl. Gallech gynnwys eich hoff artistiaid neu bortread o rywun pwysig yn eich bywyd neu ddarlun o uchelgais sydd gennych neu dddiddordeb newydd. Peidiwch ag anghofio'r lle pwysicaf – siop yr amgueddfa gyda'ch llestri ar werth sy'n dangos eich wyneb. Dylai fod yn rhywle yr hoffech chi ymweld ag ef. Bydd yn dangos rhai agweddau ar eich bywyd.

Yn fy Amgueddfa, mae portread o'm cath a fi yn fy het a'm sgarff. Pot blodau clasurol gyda llwyau a chawl. Fy niddordeb diweddaraf. Myg o'r siop (dan ddylanwad Andy Warhol) a phentref Portmeirion. Hoffwn fynd i Siapan ond ni hoffwn ddod ar draws Godsila. Cymryd cŵn am dro. Dwi'n gwirfoddol gwneud hyn yng Nghaerdydd. Rhowch ddyddiad ar y cefn. Gallech greu un bob blwyddyn i weld y newidiadau yn eich bywyd. Gallech hefyd wneud un gyda'r plant gan roi ystafell i'w hoff degan, un i'w hoff lyfr ac un i'r hyn yr hoffent fod yn oedolyn. Gobeithio y rhowch gynnig ar greu eich Amgueddfa.